Y CWLWM

EGLWYS UNEDIG GYMRAEG LLANDUDNO

IONAWR - EBRILL 2009

" Deuwch ac Addolwn"
(10.30 y bore a 3.00 y prynhawn)

IONAWR

4 Y Gweinidog (Cymundeb – Bore)
11 Mr. Goronwy Ellis, Treffynnon
18 Parch E. Trefor Jones, Llandudno
25 Y Gweinidog

CHWEFROR

1 Y Gweinidog (Cymundeb – Bore)
8 Parch J. Roger Roberts, Llandudno
15 Parch Goronwy Prys Owen, Y Bala
22 Y Gweinidog

MAWRTH

1 Y Gweinidog (Cymundeb – Bore)
8 Parch R. Ifor Jones, Hen Golwyn
15 Parch Huw Jones, Rhuddlan
22 Y Gweinidog
29 Parch J. D. Hughes, Llangefni

EBRILL

5 Y Gweinidog
12 Parch Gwynfor Williams, Caernarfon (Cymundeb – Bore)
19 Parch Iorwerth Jones Owen, Caernarfon
26 Parch Robert Parry, Wrecsam – (Bore)

Croeso cynnes iawn ichi i gyd

CYFARCHION NADOLIG

4 Rhiwledyn,
Craigside,
Llandudno
Ffôn: 01492 543964

Rhagfyr 2008

Annwyl Gyfeillion,

Manteisiaf ar gyfle i anfon fy nghyfarchion atoch cyn yr Ŵyl, gan ddymuno i chwi i gyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

Mae pawb yn dweud mai arwydd fod rhywun yn mynd yn hŷn yw teimlo fod amser yn mynd yn gynt. Mae'n siwr bod elfen o wir yn hynny; pan yn blant ac yn ieuenctid edrych ymlaen fyddwn ni, ond pan ddown yn hŷn mae mwy o duedd i edrych yn ôl, a hel atgofion, a synnu fod holl flynyddoedd yr atgofion wedi hedfan heibio. Rhaid i mi gyfaddef na welais amser erioed yn carlamu mynd heibio fel y misoedd yr wyf wedi eu treulio yma yng Ngofalaeth y Creuddyn. Mae'n anodd credu ein bod ar drothwy'r Nadolig yn barod. Wrth gwrs mae hyn yn arwydd da, oherwydd d'oes dim gwaeth na gweld amser yn llusgo. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai hapus a phrysur. Do fe gymerodd amser i gael trefn ar y tŷ, ond o ran ymgartrefu yn eich plith a theimlo croeso a chefnogaeth, ni allwn ddymuno gwell. Diolch i chi i gyd am ein helpu i setlo môr hapus yma o'r dechrau.

Wrth son am y Nadolig, fe wn na fydd pawb yn edrych ymlaen, nid oherwydd unrhyw wasgfa economaidd, er bod hynny yn reality digon anodd i ambell un. Y mae'r Nadolig yn amser arbennig o anodd i'r llesg, yr unig a'r galarus, a gwn na fu'r flwyddyn ddiwethaf yn hawdd i lawer ohonoch oherwydd gwahanol amgylchiadau. Ni fydd llawer o ddathlu na llawenydd yn bosibl, ond mae'n siwr mai gweddi y gweddill ohonom drosoch fydd, y cewch brofi mesur helaeth o dangnefedd yr Ŵyl.

"Wele, morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab; a hwy a alwant ei enw Ef Emanuel; yr hyn o'i gyfieithu yw, Duw gyda ni" Mathew 1:23.

Dyna wir ystyr a gwir werth y Nadolig, bod Duw gyda ni ym mherson ei Fab. Gadawodd Iesu, Ail Berson y Drindod, ei ogoniant a'i safle yn y Nefoedd gyda'i Dad, a chael ei eni yn berson cyffredin o gig a gwaed. Uniaethodd ei hun a thlodi ac amgylchiadau anodd dydd i ddydd y ddynoliaeth drwy gael ei eni mewn stabl, a chael ei fagu ar aelwyd gyffredin mewn pentre di-nod. Gwelodd ac fe brofodd fywyd fel y mae, profi newyn, syched, galar, dagrau, siom, poen ac yn y blaen. Ac yna ar y Groes dioddef cosb pechodau pawb ohonom gan farw i ni gael byw. Byw bywyd newydd fel plant i Dduw yn wrthrychau ei faddeuant a'i gariad, ac

yn etifeddion bywyd tragwyddol a nefol. Boed i ni i gyd, ac yn arbennig felly bawb yn ein plith sy'n ei chael yn anodd ar hyn o bryd deimlo Yr Imaniwel, y Crist byw gyda ni, i'n cynnal, ein cysuro ac i roi i ni wir lawenydd a thangnefedd yr Ŵyl. A boed i bawb ohonom fydd yn teimlo rhwyddineb i ddathlu gofio mewn gweddi, trwy air a gweithred, am y rhai sy'n ei chael yn anodd.
Diolch i bawb am bob croeso, cymwynas a charedigrwydd ers i ni gyrraedd yma.
Pob bendith dros yr Ŵyl ac am y Flwyddyn Newydd.

Cofion cywiraf,

Dafydd.

LLOFFION O'R FESTRI

DIACONIAID / BLAENORIAID Y MIS

IONAWR	**A**led Morgan	Evan W. Evans	Gwilym Williams
	Dyfed Elias	Mai Owen	John Arfon Jones
CHWEFROR	R. Gwynfor Roberts	Idris Davies	Chris Griffiths
	Gwilym C. Williams	Myra Owen	John Lewis Jones
	Gwyddfid Davies		
MAWRTH	**A**led Morgan	Evan W. Evans	Gwilym Williams
	Dyfed Elias	Mai Owen	John Arfon Jones
EBRIL	R. Gwynfor Roberts	Idris Davies	Chris Griffiths
	Gwilym C. Williams	Myra Owen	John Lewis Jones
	Gwyddfid Davies		

CYMDEITHAS PAWB

Llywydd	Trefor Lewis
Is – Lywydd	Dafydd Rees Roberts
Ysgrifennydd	Beryl Jones
Trysorydd	Chris Griffiths
Is Drysorydd	Gwyddfid Davies
Cydlynydd Lluniaeth	Glenys Williams

Cyfarfodydd yn Festri Seilo : Dechreuir am 7.00 o'r gloch

12 Ionawr Cyngerdd gyda Côr Llonnod
Arweinydd – Arfon Williams
(Dan nawdd Cyngor Y Celfyddydau)

26 Ionawr Crwydro Sbaen – yng nghwmni
Evan Wyn Evans

9 Chwefror Noson yng nghwmni y Naturiaethwr
Twm Elias

23 Chwefror 'Bro fy Mebyd' gan aelodau'r Gymdeithas
Cyfarfod Blynyddol i ddilyn

25 Chwefror Cinio Gŵyl Ddewi ynghyd ag aelodau
Cymdeithas y Cymrodorion
Bwyty Orme View, Coleg Llandrillo
(7.00 ar gyfer 7.30)
Gŵr Gwadd – Selwyn Iolen

CYFARFOD DEFOSIYNOL

Nos Lun am 7.00 o'r gloch (ar yn ail â Chymdeithas Pawb)

Maes Llafur – Cyfres Astudiaethau 'Emaus'
Dan arweiniad y Gweinidog

Dyddiadau: 5 Ionawr - Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn
19 Ionawr
2 Chwefror
16 Chwefror
2 Mawrth

Wythnos Cytûn 18 – 25 Ionawr (rhagor o fanylion i ddod)
Cyfarfod Cymdeithas y Beibl – Nos Fercher 11 Chwefror

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

Cynhaliwyd dau fore Coffi yn ystod Hydref a Thachwedd, a Bore Coffi ac iddo naws y Nadolig ddechrau Rhagfyr. Diolch i bawb o'r chwiorydd am y trefniadau, ac am y gefnogaeth i'r gweithgareddau hyn. Cafwyd sgwrs gan y Parch Dafydd Rees Roberts yng nghyfarfod y prynhawn yn Hydref, ac arddangosfa o Frodwaith gan Dilys Evans mis Tachwedd.

RHAGLEN AIL HANNER Y TYMOR

5 Chwefror	Bore Coffi
19 Chwefror	Sgwrs gan Mrs Nia Higginbotham
5 Mawrth	Bore Coffi
6 Mawrth	Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd I Annerch – Y Parch Blodwen Jones
19 Mawrth	Gosod Blodau gyda Mrs Glenys Williams a Mrs. Anwen Williams
26 Mawrth	Cinio Blynyddol – Gwesty Maenan Abbey

BLAENORIAID NEWYDD

Fe gofiwch i ni symud ymlaen i ethol rhagor o Flaenoriaid yn ystod oedfa'r bore dydd Sul 12 Hydref. 'Roedd yr oedfa yng ngofal Y Parch Blodwen Jones, a chafwyd cymorth Vincent Lloyd Hughes (Capel Coffa) ac R. Oliver Roberts (Peniel) i gyfrif y pleidleisiau. Mae'n dda gallu adrodd bod dau o'r rhai a etholwyd,, sef Y Parch John Lewis Jones a Miss Gwyddfid Davies wedi cytuno i weithredu, ac fe fyddant yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn y Flwyddyn Newydd.

CYNLLUNIO LOGO I'R EGLWYS UNEDIG

Yn ystod Mis Hydref buom yn rhoi cyfle i'r aelodau, yn blant, ieuenctid ac oedolion i gynllunio Logo i'r Eglwys Unedig, a fyddai wedyn yn cael ddefnyddio ar holl lenyddiaeth yr Eglwys.
Mae'n dda dweud ein bod wedi derbyn nifer dda o gynhyrchion, a'r rheini yn dangos dawn greadigol yr aelodau. Fe welwch fod y logo

buddugol yn ymddangos ar dudalen flaen y rhifyn hwn o'r Cwlwm. Dyfarnodd ein Gweinidog, a fu'n cloriannu'r cynnyrch, mai ffugenw y buddugol yw 'Twm Tudno'. Mae'n bleser cyhoeddi mai'r ennillydd yw Mr. Gareth Pritchard. Bydd yn derbyn tocyn llyfr yn anrheg.

YSGOL SUL

Yn ystod ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar y Sul cyntaf o Hydref eleni, yn ôl yr arfer bellach, fe neilltuwyd ein casgliad tuag at hybu addysg Julius yn Uganda. Mawr yw ein diolch am eich cyfraniadau hael, gan i ni gasglu £580.

Mae plant yr Ysgol Sul yn brysur yn paratoi neges a cherdyn i'w anfon i Julius yn Uganda.

Cawsom ymateb rhagorol eleni eto i Apel 'Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Derbyniwyd 91 o focsus a £275 tuag at y cludiant i wlad Turkestan. Daeth criw ohonom ynghyd un bore Sadwrn, a chawsom lawer o fwynhad yn helpu'r plant i lenwi'r bocsus. 'Rydym yn ddiolchgar dros ben am yr holl gefnogaeth a gawsom gennych chi yr aelodau.
Mae'r plant wedi cael gwahoddiad i ymuno gyda Ysgolion Sul y dre i orymdeithio trwy'r dre ar y 6ed. o Ragfyr – wedi gwisgo fel angel neu fugail – ac yna yn neuadd y dre bydd Sion Corn yn disgwyl amdanynt. Erbyn hyn, mae'r plant yn edrych ymlaen i'r Nadolig, ac 'rydym yn brysur yn paratoi at ein Gwasanaeth ar fore Sul, 21ain. Rhagfyr. Cofiwch aros i gael paned a mins pei tra bydd y plant yn cael eu parti, a 'falle ymweliad gan Sion Corn eto eleni.

'Rydym yn ddiolchgar iawn am garedigrwydd Cymdeithas y Chwiorydd.Cafwyd rhodd o £250 ganddynt tuag at waith yr Ysgol Sul, yn dilyn eu bore coffi. Diolch hefyd i'r aelodau am eu rhoddion tuag at y Parti Nadolig.

Bob Nos Iau cynhelir Clwb Hwyl Hwyr i'r plant, dan arweiniad ein Gweinidog. Diolch i Elen am gydsynio i helpu gyda'r Clwb. Gobeithio y daw rhagor o blant i'r Clwb ar ôl y Nadolig.

Mae beiros hardd iawn ar werth gan yr Ysgol Sul am £2 yr un.Gellir eu prynu o ystafell yr Ysgol Sul. Diolch i'r Gweinidog am y syniad, ac am eu archebu .Gobeithio y gwnawn elw sylweddol. Dyma i chi anrheg ardderchog ar gyfer y Nadolig.

ADRODDIAD O'R CYD-GYNGOR EGLWYSIG

Cyfarfu'r pwyllgor hwn bob yn ail fis yn ystod 2008, a chwblhawyd llawer iawn o'r hyn a fwriadwyd ei wneud. Rhan bwysicaf y gwaith eleni oedd glanhau, peintio, plastro a thrwsio y tŷ capel a chymhennu yma ac acw, a chyflawnwyd y gwaith yn foddhaol cyn i'r gofalwr, Rhys Roberts symud yno ym mis Medi. Derbyniwyd arian (grantiau) gan wahanol fudiadau, a bu hyn yn gymorth mawr i dalu'r costau. Merfyn Jones oedd yn gyfrifol am arolygu'r holl waith, ac mae ein diolch iddo fel Eglwys am ei waith di-flino ac am yr oriau meithion a dreuliodd yn sicrhau fod y cyfan yn cael ei gwblhau mewn ffordd dderbyniol. Erbyn hyn, ein Gweinidog, Y Parchedig Dafydd Rees Roberts sydd yn y gadair, ac mae'n diolch hefyd i holl aelodau'r Cyd-Gyngor am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.(Os dymuna unrhyw aelod gael gwybodaeth lawn am waith y Cyd-Gyngor, gellir gweld cofnodion y pwyllgorau).

CYFRIFIADURON

Erbyn hyn mae system gyfrifiadurol sy'n cynnwys cyfleusterau gwefan wedi cael ei darparu a'i gosod yn y festri. Yn y flwyddyn newydd fe eir ati i ddarparu gwefan i'r Eglwys Unedig. Sicrhawyd cymorth ariannol ar gyfer holl gostau y System Gyfrifiadurol.
Y bwriad yw cychwyn Clwb Cyfrifiadurol, a fydd yn rhoi cyfle i unrhyw un gael defnydd ohonynt. Er mwyn rhoi cychwyn ar bethau, trefnwyd i gyfarfod ar fore Gwener ar ôl y Cyfarfod Gweddi, gan ddechrau ym Mis Ionawr. Os nad yw bore Gwener yn gyfleus i rai, a wnewch chwi roi gwybod i'r swyddogion, fel y gellir trefnu amser mwy addas i rai ohonoch. Dyma eich cyfle, y rhai hynny ohonoch nad ydynt yn hyddysg ym manteision gwasanaeth cyfrifiadurol, ac sy'n awyddus i wneud hynny.

GWEITHIWR IEUENCTID

Bu trafodaethau yn cymryd lle yn ystod y misoedd diwethaf gyda'r priodoldeb o gyflogi Gweithiwr Ieuenctid i'r dref – partneriaeth rhwng Eglwysi'r dref. Amgaewn gyda'r rhifyn hwn o'r Cwlwm daflen sydd yn rhoi rhagor o fanylion am y Cynllun diddorol hwn.
Gobeithir sicrhau gweithiwr ieuenctid wedi ei hyfforddi ar gyfer cychwyn ar ei waith yn Ebrill 2009. Bydd y Cynllun yn cael ei ariannu yn y ddwy flynedd gyntaf gan Ymddiriedolaeth Pantyfedwen, ac mae Ystâd Mostyn wedi addo cyfleusterau swyddfa yn y dref.

Edrychwn ymlaen at wireddu y datblygiad hwn, a fydd yn rhoi cefnogaeth ac annogaeth i'r Eglwysi wrth iddynt geisio cyrraedd at yr ifanc yn y dref.

ADRODDIAD O'R PWYLLGOR BUGEILIOL

Mae'r Pwyllgor Bugeiliol wedi cyfarfod bob yn ail fis yn ystod 2008. Yn ystod y flwyddyn cymerodd ein Gweinidog, Y Parch. Dafydd Rees Roberts drosodd gadeiryddiaeth y Pwyllgor.
Ymdrinir â materion Eglwysig, gyda adroddiadau o'r Ysgol Sul, Cymdeithas y Chwiorydd, Gwasanaethau'r Sul, a chyfarfodydd yr wythnos, yn ogystal â materion ariannol.
Nifer aelodau'r Eglwys Unedig ddiwedd Mis Medi eleni oedd:-
Deganwy Avenue – 75. Seilo – 65, Ebeneser – 32, Tabernacl -28. Cyfanswm 200.
Os dymuna unrhyw aelod gael gwybodaeth lawnach am waith y Pwyllgor Bugeiliol, gellir gweld Cofnodion y Pwyllgorau.